# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 3

GWNEUD CAIS AM GYDSYNIAD SEILWAITH

*Cymorth i geisyddion*

### 27 Darparu gwasanaethau cyn gwneud cais

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyn gwneud cais gan awdurdod cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Weinidogion Cymru, ac mewn cysylltiad â hynny, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) yr amgylchiadau pan fo'n ofynnol darparu gwasanaethau cyn gwneud cais (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys archiadau am wasanaethau cyn gwneud cais, a'r wybodaeth sydd i fynd gydag archiad);

(b) natur y gwasanaethau y bydd yn ofynnol eu darparu, a phryd a sut y maent i'w darparu;

(c) cyhoeddi datganiad sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch yr ystod o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdod cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Weinidogion Cymru;

(d) camau eraill y mae'n ofynnol i unrhyw berson eu cymryd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau, neu at ddibenion darparu gwasanaethau, o dan y rheoliadau.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at wasanaethau cyn gwneud cais yn gyfeiriadau at wasanaethau a ddarperir i berson at ddiben cynorthwyo'r person i wneud cais am orchymyn cydsyniad seilwaith.